



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Maesllewellyn

**Cartref Preswyl Maesllewellyn
Lôn yr Eglwys
Castellnewydd Emlyn
SA38 9AB**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26/04/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Maesllewellyn

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleodd cofrestredig	40
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae rheolwr profiadol ac uchel ei barch yn arwain tîm staff ymroddedig sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r safle. Mae'r unigolyn cyfrifol yn defnyddio ei ymweliadau Rheoliad 73 a'i offer archwilio ansawdd i sicrhau bod ganddo drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae iechyd a llesiant unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cadarnhau hyn. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ac mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'u gofal pan fydd modd. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda, ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân heb unrhyw arogleuon drwg ond gallai'r ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol lechyd Cyhoeddus Cymru.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gofalu am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am ofynion a hoffterau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod pobl yn cadw mor iach â phosib.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith i sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymagwedd gywir i ofalu. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr sydd yn ei dro yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r staff gofal deall eu cyfrifoldebau yn glir o ran amddiffyn pobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae'r gwasanaeth yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, er y gallai'r ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar.

Cydnabyddir dewisiadau a barn pobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely, gallant ddewis eu hoff brydau bwyd a gallant godi a mynd i'r gwely pan fydd yn gyfleus iddynt hwy. Mae'r amgylchedd yn cynnig nifer o ardaloedd cymunol i unigolion gwrdd â'u hymwelwyr.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt ac yn canmol y staff, gwnaethant ddweud wrthym, *“mae'r gofalwyr yn wych, yn gyfeillgar iawn ac yn garedig”* a *“Byddant [gweithwyr gofal] yn mynd allan o'u ffordd i chi”*. Mae aelodau'r teulu hefyd yn canmol y gwasanaeth ac mae'r sylwadau'n cynnwys, *“mae hwn yn gartref hollol wych. Maen nhw'n gofalu am fy mam mor dda. Nid oes gennyf unrhyw bryderon o gwbl. Rwy'n gwybod ei bod hi'n ddiogel ac yn cael gofal da”* a *“Rwy'n teimlo bod pwysau wedi'i godi ers i fy mam ddod yma – mae hi'n derbyn gofal da iawn. Rwy'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion. Rwy'n gwybod y gallaf fynegi pryder os oes angen ond nid oes gennyf rai, maent wedi bod yn wych!”*

Mae'r rheolwr a'r staff wedi gweithio'n galed i ddarparu gweithgareddau yn ystod y Pandemig. Mae'r albymau ffotograffau sy'n cael eu harddangos mewn lolfâ gymunol yn dangos yr ystod a'r amrywiaeth o ddigwyddiadau, partiön a dathliadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd i berthnasau ar adegau pan na allent ymweld â'r gwasanaeth oherwydd y cyfyngiadau.

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod am hanes unigolion a'u hanghenion gofal penodol a'u hoffterau dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau cefnogi unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedasant wrthym: *“Mae hwn yn lle hyfryd i weithio, rydyn ni i gyd yn dod ymlaen yn dda ac yn cefnogi ein gilydd”* a *“y preswylwyr yw'r rhai pwysicaf, mae eu cadw'n ddiogel ac yn iach yn allweddol i'r hyn rydym yn ei wneud”*. Mae'r holl bobl y buom yn siarad â nhw yn dweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw ym Maesllewellyn ac yn teimlo y gallant godi pryder os oes angen. Dywedodd un person wrthym; *“Mae'n debyg y byddwn i'n siarad ag un o'r merched [gweithwyr gofal] pe byddai gen i bryder”* a *“Nid oes gennyf unrhyw bryderon ond byddwn i'n siarad â [rheolwr] pe byddai*. Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn y wybodaeth a roddir i bobl a / neu eu perthnasau pan fyddant yn symud i'r gwasanaeth. Mae'r hysbysiadau yn y manau cymunol hefyd yn esbonio sut i wneud cwyn.

Mae manylion da yn y cynlluniau gofal a chymorth ac maent yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Lle bo modd, mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn rhan o'u gofal. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud ag anghenion pobl. Profodd hyn i fod yn wir oherwydd cysylltwyd â meddyg teulu pan ddywedodd rhywun eu bod yn teimlo'n sâl. Ymdriniodd y rheolwr a'r staff ag anghenion iechyd yr unigolyn hwn yn brydlon yn ystod yr arolygiad. Mae cyfran o'r tîm staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg, a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau dyddiol. Dywedodd y bobl a'r perthnasau wrthym *“: Dwi wedi cael y cig oen heddiw gyda'r saws mintys a'r pwdin reis hyfryd – roedd yn flasus iawn!”* a *“Mae fy mam wrth ei bodd gyda'r bwyd – mae hi wedi dechrau magu pwysau!”* Mae bwydlenni'n cael eu diweddarau yn ôl y tymor ac mewn ymgynghoriad â'r bobl. Yn ôl pob golwg, mae adegau

bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn. Mae prydau bwyd yn cael eu cyflwyno'n dda, maent yn boeth, ac mae dewisiadau ar gael yn rhwydd.

Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael yn rhwydd. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd ac mae pobl yn ymateb iddynt o fewn amser priodol pan fyddant yn canu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol (PPE) wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae gweithdrefnau profi COVID-19 ar waith ar gyfer pob ymwelydd. Mae mesurau priodol a diogel i hwyluso ymweliadau gan berthnasau a ffrindiau. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gan staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw arogleuon drwg.

Mae dodrefn a gosodiadau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli gydag eitemau o ddodrefn, lluniau, ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae enw'r unigolyn wedi'i arddangos ar ddrysau'r ystafelloedd gwely i'w cynorthwyo i ymglyfeirio. Mae yna nifer o lolfeydd cymunol i'r bobl gymdeithasu. Mae'r rhain yn teimlo'n gartrefol gydag addurniadau, lluniau a phwyntiau o ddiddordeb. Er bod yr ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân, maent yn edrych yn glinigol ac nid ydynt yn groesawgar iawn i bobl fwynhau bath.

Mae'r gerddi cymunol yn cynnig mannau deniadol i bobl a'u hymwelwyr eistedd a chymdeithasu mewn tywydd cynnes. Dywedodd un person wrthym tra'n eistedd ar fainc yn yr ardd; *“mae hyn yn wych!”*

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cynnal yr ymweliadau Rheoliad 73 bob tri mis. Mae AGC wedi derbyn copïau o'i hadroddiadau, sy'n dangos ei bod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r cartref. Cadarnhaodd staff a phobl hyn gyda ni, dywedodd un aelod o staff; *"Mae [unigolyn cyfrifol] yn ymweld yn rheolaidd ac yn siarad â'r staff a'r preswylwyr"*, dywedodd unigolyn wrthym *"Mae hi'n neis iawn, yn treulio amser yn sgwrsio gyda ni, er rhaid ei bod hi yn brysur iawn"*. Mae ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae'r rheolwr yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd gan yr unigolyn cyfrifol ac mae'n teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda ganddi.

Mae'r staff yn gymwys, yn wybodus ac yn cael eu cefnogi i ofalu am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent yn ei fynychu ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion ac o arferion symud a thrin. Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod nhw'n derbyn cyfnod sefydlu da, a'u bod yn cael goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym *"rydym wedi cael llawer o hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig, ond mae wedi'n helpu i gofio pethau"*, *"Rwy'n cael goruchwyliaeth reolaidd gyda [rheolwr]"*. Cedwir contractau cyflogaeth y staff yn yr adran Adnoddau Dynol ond dylent fod ar gael yn hawdd i'w harchwilio.

Mae'r bobl, eu perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn canmol y staff a'r rheolwr ac mae'r sylwadau'n cynnwys; *"Nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda'r gwasanaeth, gofal na rheolaeth"*, *"mae hwn yn gartref hyfryd lle mae'r preswylwyr yn derbyn gofal da"*. Mae'r staff yn canmol y rheolwr a'r gweithio yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym: *"mae rhai rheolwyr yn dweud bod ganddyn nhw bolisi drws agored, wel mewn gwirionedd mae drws swyddfa [rheolwr] bob amser ar agor i'r staff "* a *"mae hi'n [rheolwr] ardderchog, yn arweinydd gwych"*.

Drwy gydol cyfnod yr arolygiad, mae'r staff yn rhyngweithio ac yn cefnogi pobl mewn modd gofalgwr a pharchus, sy'n ychwanegu at yr awyrgylch croesawgar a hapus yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac maent yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae yna bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd i gynorthwyo'r staff.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawn. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn	Amherthnasol

	yn yr arolygiad hwn	
--	---------------------	--

Dyddiad cyhoeddi 21/06/2022